Prosiect Cydgasglu Galw'r Sector Cyhoeddus am Fand Eang yng Nghymru

www.psba.org.uk

psba

Hanes PSBA

galluogi cyflenwi gwasanaethau

Mae prosiect PSBA wedi bod yn weithgaredd cydweithredu enfawr ar draws y Sector Cyhoeddus yng Nghymru ers ei sefydlu yn 2004. Darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y weledigaeth a'r cymhelliant, gan arwain yn y broses o'i ddatblygu.

Arweiniodd hyn at greu Partneriaeth PSBA sy'n cynrychioli cyrff y sector cyhoeddus sy'n ariannu ac yn defnyddio rwydwaith PSBA. Erbyn hyn, mae cyflenwyr rwydwaith PSBA, sef Logicalis UK Ltd, wedi ymuno â'r bartneriaeth hon hefyd.

Pwy sy'n defnyddio gwasanaethau PSBA eisoes?

Y defnyddwyr cychwynnol yw:

- y sector Iechyd, gan gynnwys ysbytai a meddygon teulu
- pob un o'r 22 Awdurdod Unedol
- Addysg Uwch ac Addysg Bellach (AU/AB), gan gynnwys colegau a phrifysgolion

Pwy all ddefnyddio gwasanaethau PSBA?

Mae unrhyw sefydliad sy'n darparu gwasanaethau'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn gymwys i ymuno â PSBA: mae sefydliadau newydd yn ymuno o hyd.

Mae'r rhwydwaith sy'n cynnal y gwasanaethau hyn wedi'i lunio a'i adeiladu yng Nghymru i fodloni anghenion penodol y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae cynrychiolwyr o ddefnyddwyr y gwasanaeth a Chynulliad Cymru yn darparu llywodraethu a chyfeiriad parhaus.

Mae tîm craidd o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rheoli'r amrywiol weithgareddau a'r rhyngweithiad rhwng y cyflenwyr, Logicalis, a chleientiaid y sector.

Cyllid

Mae sectorau'r bartneriaeth yn cyfrannu at un gyllideb gyfun i ddarparu'r rhwydwaith mewnol cydranedig ar gyfer y gwasanaeth. Mae'r rhwydwaith mewnol hwn yn cynnwys elfennau sy'n gyffredin i bawb, gan gynnwys datblygu a defnyddio'r rhwydwaith ei hun, gwasanaethau cymorth fel desg gymorth; ynghyd â phorth gwasanaeth, monitro ac adrodd ar y gwasanaeth, bilio a chymorth dylunio technegol.

Mae'r gwasanaethau craidd hyn hefyd yn cynnwys datblygu a chynnwys gwasanaethau newydd ym mhortffolio eang PSBA.

Logicalis, cyflenwyr PSBA

Mae Logicalis UK Ltd yn cyflenwi rhwydwaith PSBA ar ran partneriaeth PSBA.

Mae Logicalis yn cynllunio, yn trefnu, yn integreiddio ac yn rheoli PSBA. Mae gweithrediadau PSBA Logicalis yng Nghymru wedi'u lleoli yn eu swyddfeydd yn Nantgarw, ger Caerdydd.

20409

LOGICALIS
Cyflenwr y Rhwydwaith PSBA
The PSBA Network Supplier

Gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru
Working in partnership with Welsh Assembly Government